


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Llanwnda/Wdig

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 4.9 milltir (7.9 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Wdig 413, 410 (Gwasanaeth Tref Abergwaun),
*Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio), Terfynfa'r rheilffordd ym mhorthladd y Fferi

CYMERIAD: Taith arfordirol garw, tir fferm

CHWILIWCH AM: Safle Carregwastad goresgyniad y Ffrancod (1797) • Eglwys Geltaidd Llanwnda
• morloi • ailgyflwyno pori arfordirol

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
Llwyr Cenedlaethol
- - - Llwbrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toiledau Cyhoeddus
- D** Safle Bws
- R** Gorsaf Rheilffordd



Llanwnda/Wdig

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 4.9 milltir (7.9 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Wdig 413, 410 (Gwasanaeth Tref Abergwaun), *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio), Terfynfa'r rheilffordd ym mhorthladd y Fferi.

Cyfeirnod map: SM935395

Dewch i ymweld â'r safle ble ceisiodd y Ffrancod ein goresgyn.

Chwiliwch am: Safle Carregwastad goresgyniad y Ffrancod (1797), Eglwys Geltaidd Llanwnda, morloi, ailgyflwyno pori arfordirol .

Mae yna olygfeydd gwych o Lanwnda tua'r tir gyda Rhos Ciliau a Garnwnda yn y cefndir wrth i chi gerdded o amgylch Carn Farthach; ar hyd yr arfordir mae'r olygfa ar draws y pentiroedd i Carregwastad yn fendigedig. Ar y rhostir arfordirol, ailgyflwynwyd pori traddodiadol (merlod a da byw) i wella'r cynefin ar gyfer bywyd gwyllt. Yn aml, gellir gweld morloi ar y pentiroedd caregog ac yn y cildraethau cysgodol.

Yng Ngharregwastad mae yna biler i goffau Glaniad y Ffrancod yn 1797 a'u hymgais aflwyddiannus i oresgyn. Mae yna gysylltiad annatod rhwng hanes y menywod lleol a ddarostyngodd rym y goresgyniad a thirwedd Sir Benfro ei hun. Mae'n ymddangos fod y goresgynwyr Ffrengig wedi camgymryd menywod yr ardal, a oedd yn gwisgo'u ffrogiau coch a'u hetiau tal du, am Gotiau Goch byddin Prydain. Bryd hynny, defnyddiwyd y cennau a ganfuwyd ar greigiau'r rhostir lleol, a gynhyrchai liw coch o'r enw 'crottal' i roi'r liw coch llachar i'r ffrogiau - ac felly fwy na thebyg ei fod wedi helpu atal y goresgyniad.

Mae Eglwys Geltaidd Llanwnda wedi ei gysegru i Sant Gwyndaf, saint Llydewig.

Cymeriad: Taih arfordirol garw, tir fferm.

